

## Polisi Mynediad i Ysgolion Gwynedd

Polisi cyfredol yr Awdurdod Addysg yw cynnig lle meithrin rhan amser yn y Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, a lle llawn amser yn y dosbarth derbyn yn y Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed.

### Meini Prawf Mynediad

Lle bo goralw am fynediad i ysgol, defnyddir y meini prawf isod i benderfynu blaenoriaeth mynediad. Maent yn berthnasol i geisiadau am fynediad i ddsbarthiadau meithrin a derbyn mewn ysgolion cynradd yn ogystal â cheisiadau am fynediad i ysgolion uwchradd.

Rhoddir ystyriaeth iddynt yn y drefn flaenoriaeth a nodir:

1. Bydd yr Awdurdod yn ystyried ceisiadau a gyfeirir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Meddyg Sector perthnasol lle maent o'r farn fod mynediad i'r ysgol yn angenrheidiol er lles meddygol neu gymdeithasol y plentyn neu lle mae datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig plentyn yn enwi ysgol benodol.
2. Plant sy'n byw o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol. Os yw cyfanswm ceisiadau o'r fath yn uwch na'r rhif safonol bydd y ceisiadau yn cael eu blaenoriaethu yn ôl meini prawf 3-6 isod.
3. Plant â brodyr neu chwiorydd yn yr ysgol, (gan roi blaenoriaeth i'r plant sydd a'u cyfeiriad cartref agosaf at yr ysgol).
4. Plant â brodyr neu chwiorydd wedi mynychu'r ysgol yn y gorffennol (gan roi blaenoriaeth i'r plant sydd a'u cyfeiriad cartref agosaf at yr ysgol).
5. Plant sy'n mynd i ysgol gynradd a gynhelir o fewn dalgylch yr ysgol uwchradd (gan roi blaenoriaeth i'r plant sydd a'u cyfeiriad cartref agosaf at yr ysgol). Bydd y maen prawf yma yn berthnasol i geisiadau am fynediad i ysgolion uwchradd yn unig.
6. Pellter cyfeiriad y cartref o'r ysgol.

Bydd mynediad i ysgolion cynradd yn ddarostyngedig i'r angen i sicrhau nad yw dosbarthiadau yn cynnwys mwy na 30 o blant.

Mi fydd pob pellter yn cael ei fesur drwy ystyried y pellter byrraf ar droed rhwng y cartref a mynedfa gydnabyddedig agosaf yr ysgol. Cyfrifir y pellter gan ddefnyddio systemau mapio digidol.

Y mae brawd a chware yn cynnwys unrhyw hanner brawd/chwaer, llys frawd/chwaer, brawd/chwaer maeth neu blant mabwysiedig sy'n byw yn yr un tŷ.

Os na all yr Awdurdod gynnig lle i blentyn yn ei ddewis cyntaf o ysgol yn ystod y cylch mynediad arferol bydd enw'r plentyn yn cael ei gadw ar restr aros hyd at 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd berthnasol. Rhoddir

blaenoriaeth am lefydd drwy ddefnyddio'r meini prawf uchod ac nid yn ôl y dyddiad pan dderbyniwyd y cais gwreiddiol.

Ni all yr Awdurdod gynnig llefydd i blant, gan gynnwys plant sy'n byw yn y dalgylch, lle derbynnir y cais ar ôl **19 Rhagfyr** os yw'r ysgol yn llawn. Mewn amgylchiadau o'r fath, cynigir y cyfle i rieni osod eu plentyn ar y rhestr aros y gyfeirir at uchod a/neu'r cyfle i geisio am le mewn ysgol arall.

Gweler y daflen mynediad i ysgol gynradd yn amgaeedig.

## **Polisi Dalgylchol**

Mae'r Awdurdod Addysg yn gweithredu polisi dalgylchol ac mae disgwyl i ddisgyblion fynd i'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch a lle gwnaeth yr Awdurdod ddarpariaeth gyda golwg ar le, staffio ac adnoddau eraill yr ysgol a chludiant iddi.

Mae gan bob ysgol yng Ngwynedd ddalgylch diffinedig a cheir mapiau swyddogol yn dangos ffiniau dalgylchoedd yn y Swyddfa Addysg neu mewn ysgolion unigol. Dylai rhieni sy'n ystyried anfon eu plentyn i ysgol heblaw'r ysgol leol, gyflwyno cais mewn ysgrifen i'r Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion. Mae ffurflen arbennig i'w lenwi ar gael o'r ysgol leol neu o'r Swyddfa Addysg a gall rhieni nodi eu dewis o ysgol. Dylid cyflwyno'r ffurflen cyn 19 Rhagfyr, i wneud cais am fynediad i ysgol uwchradd a chyn Ebrill, ar gyfer ysgol gynradd. Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â dymuniad rhieni pan na fydd hynny'n "peryglu darparu addysg effeithiol neu ddefnydd effeithiol o adnoddau".

Rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â'r gofyn statudol i sicrhau nad oes mwy na 30 o blant mewn dosbarth babanod. Os oes goralw am le mewn ysgol bydd y flaenoriaeth yn unol â'r Meini Prawf Mynediad.

## **Trosglwyddo a Symud Plant**

Dylai rhieni sy'n dymuno trosglwyddo eu plentyn o un ysgol i un arall (ar wahân i'r adegau trosglwyddo arferol neu pan mae'r teulu yn newid cyfeiriad) wneud cais ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion, ond nid cyn trafod yn fanwl yn y lle cyntaf gyda'r ddau/ddwy Brifathro/awes perthnasol.

Cynghorir rhieni yn gryf i beidio â throsglwyddo disgyblion yn ystod blwyddyn ysgol rhag amharu ar eu cwrs addysg.

Gweler y daflen drosglwyddo yn amgaeedig

## **Trefniant Ysgol Waunfawr**

- 1) Hysbysir drwy llythyr i'r rhieni yn ystod Tymor y Gwanwyn bod angen cofrestru plant sy'n dair oed cyn mis Medi i gael eu derbyn fel plant rhan amser i'r dosbarth Meithrin sef sesiwn ddwy awr y dydd erbyn Mawrth y 1af y flwyddyn honno.
- 2) Nodir hefyd bod angen cofrestru plant sy'n bedair oed cyn y diwrnod cyntaf o Fedi ar gyfer y dosbarth derbyn fel disgyblion llawn amser yr un modd.
- 3) Defnyddir hysbyseb yr Awdurdod Addysg Lleol.
- 4) Rhoddir y wybodaeth yn y papur bro lleol Eco'r Wyddfa a hefyd hysbysir yr Ysgol Feithrin Lleol.
- 5) Ni chaniateir dosbarthiadau mwy na 30 yn y Cyfnod Sylfaen.
- 6) Trefnir cyfarfod ar gyfer rhieni a phlant fydd yn cychwyn yn y dosbarth meithrin yn ystod yr wythnos olaf yn nhymor yr Haf ganol fis Gorffennaf. Yn y cyfarfod hwn bydd y rhieni yn derbyn llawlyfr yr ysgol ynghyd ág unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Rhydd yr athrawes feithrin gyflwyniad iddynt ar y math o weithgareddau a roddir i'r plant gan rannu methodoleg y Cyfnod Sylfaen. Dosberthir ffurflenni SIMS a chaiff y rhieni eglurhad ynglyn á pholisiau'r ysgol parthed iaith / trefniant dosbarthiadau o'r derbyn i fyny/disgwyliadau ymddygiad/clwb brecwast ac ati. A chaiff y rhieni gyfle i ymweld á'r dosbarth. Sefydlir a meithrinir perthynas hapus rhwng yr ysgol á'r rhieni ac estynnir croeso cynnes iddynt ar bob achlysur.
- 7) Gwahoddir y plant i dreulio sesiwn ddwy awr yn yr ysgol yn dilyn y cyfarfod.
- 8) Os derbynnir teuloedd uniaith saesneg i'r ysgol o flwyddyn i ymlaen gwneir cais iddynt fynychu Uned Iaith Maesincla.

### **Mynediad i Ysgolion Uwchradd**

Newidwyd Dalgylch Ysgol Waunfawr o Syr Hugh Owen i Dalgylch Brynrefail yn nhymor yr Haf 2008, yn unol á dymuniad y rheini a'r Corff Llywodraethwyr.

- 1) Oherwydd hyn mae mynediad disgyblion blwyddyn 6 Ysgol Waunfawr bellach wedi eu diogelu ar gyfer mynediad i Ysgol Uwchradd Brynrefail- ond gall rhieni geisio am fynediad i'w plant i Ysgol Uwchradd Syr Hugh Owen yn all-dalgylch petaent yn dymuno hynny drwy wneud cais i'r Awdurdod Addysg Lleol.

Adolygwyd y Polisi hwn gan y Corff Llywodraethwyr

Dyddiad Adolygu Tymor yr Hydref 2015

Arwyddwyd gan y Cadeirydd \_\_\_\_\_

Arwyddwyd gan y Pennaeth  
Mrs Gwenan Williams \_\_\_\_\_